## Ein harweiniad

Rydyn ni wedi ysgrifennu arweiniad i gymryd rhan o'r enw

**Sut i gynnwys pobl sy'n defnyddio ein Gwasanaethau**

Dyma fersiwn Hawdd ei Darllen o

**Fframwaith Cynnwys Defnyddwyr Gwasanaeth Llywodraeth Cymru**

Gallwch chi gael copi drwy:



- fynd i www.wales.gov.uk/substancemisuse
- gofyn i'ch darparwr gwasanaeth am gopi

## Eisiau cymryd rhan? I gael gwybod sut:



- siaradwch gyda'ch darparwr gwasanaeth
- cysylltwch â'ch Bwrdd Cynllunio Ardal



- ewch ar-lein yn www.wales.gov.uk/substancemisuse


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Gwasanaethau triniaeth camddefnyddio sylweddau

## Ffyrdd i gymryd rhan mewn cynllunio arhedeg gwasanaethau

Dyma ddogfen **hawdd i'w ddarllen** gan Lywodraeth Cymru



**Tachwedd 2014**

## Byrddau Cynllunio Ardal



Mae 7 o Fyrddau Cynllunio Ardal yng Nghymru.

Mae **Byrddau Cynllunio Ardal** yn gweithio yng Nghymru i



- gael gwasanaethau a'r bobl sy'n eu defnyddio i weithio gyda'i gilydd
- cynllunio a phrynu gwasanaethau
- gwirio bod gwasanaethau yn gweithio'n dda
- rhannu adnoddau a sgiliau
- helpu cyflwyno beth mae Strategaeth Camddefnyddio

**Mae angen eich help chi ar Fyrddau Cynllunio Ardal i wneud yn siŵr eu bod nhw'n cael pethau'n iawn. Mae angen eich help chi ar ddarparwyr gwasanaeth hefyd.**

## Pam rydyn ni angen chi

Rydych chi'n gallu defnyddio eich profiad i:





- gynllunio gwasanaethau gwell gyda ni
- dangos i ni beth sy'n gweithio'n dda a beth sydd ddim yn gweithio
- siarad dros bobl eraill
- gwneud yn siŵr bod y gwasanaethau iawn gyda ni
- gwneud yn siŵr bod gwasanaethau yn atebol i'r bobl sy'n defnyddio nhw

## Ffyrdd i helpu



Dylai'r holl Fyrddau Cynllunio Ardal a darparwyr gwasanaeth roi'r dewisiadau hyn i chi gael cymryd rhan:

- dweud wrthoch chi beth maen nhw'n gwneud
- gofyn i chi beth ydych chi'n meddwl
- defnyddio eich syniadau chi pan maen nhw'n gwneud penderfyniadau
- cael cynrychiolydd defnyddwyr gwasanaeth mewn cyfarfodydd
- gwneud penderfyniadau gyda'ch gilydd
- gadael i chi wneud eich penderfyniadau eich hun a rhedeg prosiectau, neu hyd yn oed rhedeg gwasanaethau eich hun